# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Victor Hughes, R. Meirion Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees a P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr J Arwel Roberts, Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2014 yn rhai cywir.

**3 GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD Y CYNGOR**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd ar y cynnydd mewn perthynas â gwe-ddarlledu cyfarfodydd.

Rhoddodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar yr holl ystadegau ar gyfer y cyfarfodydd oedd i'w gwe-ddarlledu ac oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad. Nododd bod yr ystadegau yn gyffredinol yn rhai calonogol wrth hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd trwy gael mwy o gyfranogiad yn nhrefniadau democrataidd y Cyngor.

Roedd protocol drafft ar we-ddarlledu cyfarfodydd oedd yn cynnwys cyfarwyddyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar we-ddarlledu ynghlwm i'r adroddiad. Cynigiodd y Swyddog y dylai'r protocol gwe-ddarlledu gael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau a Swyddogion gan gynnwys safbwyntiau'r Pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r cynnydd gyda'r gwe-ddarlledu fel oedd yn yr adroddiad a bod diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.**
- **Bod y protocol gwe-ddarlledu drafft yn cael ei anfon i Aelodau a Swyddogion.**

## 4 ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas ag Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd bod yr holl Aelodau yn paratoi adroddiad blynyddol am y cyfnod hyd at Mawrth 2014. Byddai'r adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2014. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r adroddiadau am 2014/15.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5 GRANT DATBLYGU GWEFAN CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru i Gynghorau Sir i gynnig grant o hyd at £500 yr un i Gynghorau Tref a Chymuned, yn cynnwys y rhai sydd eisoes â gwefan, i'w wario ar ddatblygu gwefan.

Amlinellwyd y sefyllfa gyfredol o safbwynt dyrannu'r grant :-

- 35 o Gynghorau wedi hawlio'r grant;
- 2 Gyngor wedi hysbysu eu bwriad i hawlio'r grant;
- 1 Cyngor wedi hysbysu eu bod yn dal i ystyried y mater;
- 2 Gyngor wedi hysbysu nad ydynt yn bwriadu hawlio'r grant (roedd gan un wefan yn barod).

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 6 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2014/15

Cyflwynwyd – Rhaglen Waith y Pwyllgor am 2014/15.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd bod y Pwyllgor wedi nodi'r canlynol fel rhan o'i raglen waith am y flwyddyn :-

- Datblygu Aelodau a Chynllun Hyfforddi yn cynnwys adolygiadau personol.
- Gwe-ddarlledu Cyfarfodydd a Mynychu o Bell;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
- Adroddiad Blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol;
- Moderneiddio Arferion Gweithio;
- Cyllideb 2015/16 a'r effaith ar y Gwasanaethau Democrataidd

Nodwyd y bydd hyfforddiant pellach ar yr Ipad yn cael ei roi i Aelodau ar 26 Medi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**